

Annwyl riant/gofalwr,

Wrth i ni agosau at ddiwedd y tymor hoffwn eich diweddarau ar ddatblygiadau yn yr ysgol a rhannu rhai dyddiadau allweddol gyda chi.

Gweithgareddau a Digwyddiadau.

Mae wedi bod yn dymor eithriadol o brysur a chyffrous yn allgyrsiol. Mae llawer o'n disgyblion wedi cynrychioli'r ysgol ar draws nifer o weithgareddau chwaraeon, cerddorol a diwylliannol ac rydym yn falch iawn o allu rhannu'r manylion hynny gyda chi yn ein cylchlythyr tymhorol, 'Bwletin Bro Gwaun'. Roddir gopi o'r bwletin i bob plentyn cyn diwedd y tymor. Rydym yn falch iawn o holl ymdrechion ein disgyblion a gofynnaf ichi gymryd ychydig o amser i ddarllen am eu campau a'u llwyddiannau. Da iawn chi gyd!

Adolygu arholiadau TGAU.

Ein ffocws dros yr ychydig wythnosau nesaf fydd sicrhau bod ein disgyblion TGAU yn cael eu cefnogi'n llawn wrth iddynt baratoi ar gyfer eu harholiadau. Rydym wedi cynhyrchu rhaglen adolygu gynhwysfawr ar gyfer y Pasg ac ar ôl ysgol. Os ydych yn rhiant neu'n ofalwr i ddisgybl ym mlynnyddoedd 10 neu 11, gwnewch bob ymdrech i sicrhau bod eich plentyn/plant yn mynychu pob un o'r dosbarthiadau adolygu rydym yn eu cynnal rhwng nawr a'r arholiadau. Rydym wedi rhoi manylion y rhaglen i'ch plentyn/plant. Gellir dod o hyd iddynt hefyd ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol, gwefan neu drwy ddilyn y ddolen isod.

 [Year 11 revision timetables 2024.docx](#)

Gwisg Ysgol.

Bydd disgyblion, yn ystod tymor yr haf, yn cael y dewis o wisgo y gwisg haf o grys polo gwyrdd yn lle'r crys gwyn a thei. Bydd yr holl ofynion gwisg eraill fel siwmpwr ddu, esgidiau du a gemwaith priodol yn parhau i fod yn berthnasol ar gyfer tymor yr haf.

Offer.

Yn anffodus, rydym yn canfod bod nifer o ddisgyblion nad ydynt yn dod ag offer fel beiros, pensiliau a phren mesur i'r ysgol. Mae offer sylfaenol fel hwn yn gwbl angenrheidiol i sicrhau bod disgyblion yn gallu cyrchu a chwblhau eu gwaith ac i sicrhau eu bod yn perfformio hyd eithaf eu gallu. Gofynnwn yn garedig i chi wirio bod gan eich plentyn/plant yr offer angenrheidiol yn rheolaidd.

Datgloi Noson i rieni Blwyddyn 10 - Dydd Mawrth 9 Ebrill

Rydym yn bwriadu cynnal noson i gefnogi rhieni disgyblion Blwyddyn 10, a fydd yn sefyll arholiadau TGAU am y tro cyntaf yr haf hwn. Ffocws y noson fydd rhoi arweiniad i chi fel rhieni ar adolygu a strategaethau cefnogi i helpu i gael y gorau o'ch plentyn/plant wrth iddynt sefyll arholiadau allanol am y tro cyntaf. Mae'r noson yn adeiladu ar ddiwyddiadau blaenorol tebyg yr ydym wedi'u cynnal yn

Cyfeiriad/Address: Heol Dyfed, Abergwaun, Sir Benfro SA65 9DT

Rhif ffôn/Tel: 01348 872268

E-bost/E-mail: office@ysgolbrogwaun.com



Ysgol Bro Gwaun

Pennaeth / Headteacher: Mr Paul Edwards

Ilwyddiannus gyda rhieni. Cadwch olwg am y gwahoddiad ac edrychwn ymlaen at eich gweld ar y 9fed.

Presenoldeb.

Mae'n bwysig bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn er mwyn cael y budd mwyaf o'r addysg a ddarperir. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn mynychu'n dda ac mae ein canlyniadau TGAU yn adlewyrchu'n agos ein cyfraddau presenoldeb da. Mae ein cyfradd presenoldeb ysgol gyfan ar hyn o bryd bron yn 91%, ac er ei fod yn ddarlun sy'n gwella, a'n bod yn cymharu'n dda ag ysgolion eraill, mae hyn yn dal yn is na'r lefelau cyn-bandemig. Rydym yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud i dargedu absenoldebau cyson rhai disgyblion a byddwn yn parhau i atgoffa pob rhiant/gofalwr a'u plentyn/plant o bwysigrwydd presenoldeb da. A fydddech cystal â'n cefnogi i sicrhau bod eich plentyn/plant yn gwneud pob ymdrech i fynychu'r ysgol.

Dyddiadau allweddol ar gyfer yr hanner tymor nesaf.

Dydd Gwener Mawrth 22ain – Diwrnod olaf y Tymor

Dydd Llun Ebrill 8fed - Diwrnod HMS Sir-gyfan - **dim ysgol i ddisgyblion.**

Dydd Mawrth Ebrill 9fed – Disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol a noson strategaethau adolygu Blwyddyn 10 i rieni blwyddyn 10.

Dydd Llun Mai 6ed - Gŵyl Banc Calan Mai.

Dydd Iau Mai 9fed - arholiadau TGAU yn cychwyn

Dydd Llun Mai 27ain – Dechrau Wythnos Hanner Tymor y Sulgwyn

Dydd Llun Mehefin 3ydd – Disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol.

Yn dilyn hanner tymor y Sulgwyn, bydd Blwyddyn 9 yn dechrau gyda'u hamserlen opsiynau TGAU.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus. Dymunwn Pasg diogel a phleserus i chi.

Paul Edwards

Cyfeiriad/Address: Heol Dyfed, Abergwaun, Sir Benfro SA65 9DT

Rhif ffôn/Tel: 01348 872268

E-bost/E-mail: office@ysgolbrogwaun.com

